**PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**9 TACHWEDD 2022**

Cofnodion Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod o bell ddydd Mercher, 9 Tachwedd 2022

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Rob Davies (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Gillian Brockley, David Coggins Cogan, Steve Copple, Ian Hodge, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Gina Maddison, Roz Mansell, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Linda Thew, Arnold Woolley ac Antony Wren

**YMDDIHEURIAD:** Y Cynghorydd Jean Davies

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Llywodraethu); Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 14. DATGAN CYSYLLTIAD

Cofnodwyd datgan cysylltiad personol ar gyfer holl Aelodau'r Pwyllgor a oedd yn bresennol ar eitem 4 ar y rhaglen - Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) 2023/24.

## 15. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Ian Hodge a Gillian Brockley.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

## 16. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW) 2023/34

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) gyda chyfraddau taliadau arfaethedig i aelodau etholedig a chyfetholedig Awdurdodau Lleol Cymru ar gyfer 2023/24. Gofynnwyd am farn y Pwyllgor cyn i'r Cyngor gyflwyno ymateb erbyn 1 Rhagfyr 2022. Roedd angen i'r IRPW ystyried unrhyw sylwadau ar y drafft cyn cyflwyno fersiwn derfynol yr adroddiad ym mis Chwefror 2023.

Cyfeiriwyd at fformat diwygiedig yr adroddiad a'r dull a ddefnyddiwyd gan yr IRPW i gysoni cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr drwy ddefnyddio Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2020 (ASHE) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd y cynnydd arfaethedig o rhwng 3.15% a 4.76% ymhell y tu ôl i lefel gyfredol chwyddiant.

Wrth roi cefndir, amlinellodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) ystyriaethau'r Pwyllgor ar adroddiad IRPW 2022/23, gan gynnwys sylwadau y dylid rhoi cynyddrannau yn raddol dros gyfnod y Cyngor er mwyn osgoi'r angen am un

cynnydd mawr, wrth hefyd ystyried lefelau chwyddiant ar y pryd. Awgrymodd efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno ystyried cyflwyno sylwadau i'r IRPW ddefnyddio ffynonellau cymharol eraill, yn ogystal ag Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (a oedd yn ymwneud â ffigyrau 2021) er mwyn osgoi dibynnu ar un ffynhonnell ddata a sicrhau nad oedd cyflogau cynghorwyr yn disgyn y tu ôl i'r rheini roeddent yn cynrychioli. Byddai hyn hefyd yn helpu i annog amrywiaeth mewn llywodraeth leol.

Tynnodd y Cynghorydd Ted Palmer sylw at bwysigrwydd yr IRPW fel corff annibynnol sy'n parhau i wneud y penderfyniad terfynol a dewis unigol yr Aelodau wrth ddewis derbyn unrhyw godiadau cyflog ai peidio.

Eglurodd y Prif Swyddog, er bod hon yn broses annibynnol, roedd yr Aelodau etholedig yn gallu penderfynu a oeddent am dderbyn eu codiad cyflog neu os oeddent yn dymuno, gallent ddewis peidio â derbyn y codiad cyflog drwy roi gwybod i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Steve Copple, eglurwyd bod adroddiadau'r IRPW wedi ystyried ond yn gwrthod seilio lwfansau ar y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol oherwydd nad oeddent yn adlewyrchu enillion cyfartalog. Cytunodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd i ddosbarthu dolen i'r papur esboniadol ar wefan IRPW a oedd yn egluro'r rhesymeg dros gadw'r cysylltiad ag Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion.

Siaradodd y Cynghorydd Paul Johnson am yr angen i IRPW fod yn gyson wrth gyrraedd ei benderfyniadau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mynegodd y Pwyllgor gefnogaeth i'r sylwadau a wnaed gan y Prif Swyddog. Ar y sail honno, cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Michelle Perfect a Ted Palmer.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r Penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2023/24; ac

(b) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i gyflwyno ymateb ar ran y Cyngor, gan adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod, i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel a ganlyn:

Gofyn i'r IRPW ymhelaethu ar ffynonellau cymharol i sicrhau bod cyfraddau cyflog yn parhau'n gyfredol ac osgoi'r angen am godiad sylweddol, yn enwedig cyn etholiad.

## 17. <u>AROLWG AR AMSEROEDD A FFORMAT CYFARFODYDD</u>

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i geisio barn y Pwyllgor ar yr arolwg arfaethedig ar amseroedd a fformat cyfarfodydd. Byddai'r arolwg yn rhoi cyfle i'r holl Aelodau rannu eu barn ynghylch pryd a sut y byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal, gan ystyried gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfarfodydd aml-leoliad.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) gefndir ar y newidiadau deddfwriaethol a oedd yn cefnogi hygyrchedd ehangach i gyfarfodydd ffurfiol. Gofynnodd a oedd y Pwyllgor yn fodlon y byddai'r arolwg yn galluogi pob unigolyn i fynegi ei farn yn llawn.

Eiliwyd cynnig y Cynghorydd Alasdair Ibbotson bod y Pwyllgor yn symud ymlaen gyda'r argymhelliad gan y Cynghorydd Gillian Brockley. Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Michelle Perfect a Ted Palmer.

Eglurwyd y byddai'r arolwg yn cael ei gyhoeddi'n electronig ac y byddai'r Aelodau'n cael copi papur ar gais. Gofynnodd y Cynghorydd Ted Palmer a Gillian Brockley am gopïau papur.

Byddai canlyniad yr arolwg yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2023 ac unrhyw newidiadau yn cael eu hymgorffori yn y Rhestr o Gyfarfodydd ar gyfer 2023/24.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cytuno â'r dull arfaethedig o gynnal yr arolwg ac yn cymeradwyo'r ffurflen arolwg i'w defnyddio.

**18. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 2.35pm)

…………………………

**Y Cadeirydd**